# Cross-Party Group on Lung Health
# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd yr Ysgyfaint

Cofnodion 21 Medi 2021

## Yn bresennol

Aelodau o'r Senedd
Altaf Hussain AS
Jane Dodds AS
John Griffiths AS
Mike Hedges AS
Ioan Bellin (yn cynrychioli Rhys ab Owen AS)
Heledd Roberts (yn cynrychioli Rhun ap Iorwerth AS)
Jack Harries (yn cynrychioli Vikki Howells AS)

Pobl nad ydynt yn Aelodau o'r Senedd
Joseph Carter - Asthma UK a Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint Cymru
Dai Davies - Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol
Dave Edwards - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Chrissie Gallimore - GSK
Jennifer Gilroy-Cheetham - Chiesi
Claire Hurlin - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Calum Higgins - Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi
Natalie Janes-Plumley - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Rhys Jefferies - Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru
Harriet Lewis - Chiesi

**Ymddiheuriadau:**

Natasha Asghar AS Jayne
Bryant AS
Cefin Campbell AS
Gareth Davies AS
Paul Davies AS
Janet Finch-Saunders AS
Luke Fletcher AS
Heledd Fychan AS
Russell George AS

Llŷr Gruffydd AS
Vikki Howells AS
Rhun ap Iorwerth AS
Mark Isherwood AS
Delyth Jewell AS
Samuel Kurtz AS
Darren Millar AS
Rhianon Passmore AS
Jenny Rathbone AS
Sam Rowlands AS
Carolyn Thomas AS
Buffy Williams AS
Sioned Williams AS

1. **Croeso a pham fod angen Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd yr Ysgyfaint – Joseph Carter, Pennaeth Asthma UK a Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint Cymru**

Cafwyd cyflwyniad gan **Joseph Carter** am Asthma UK a Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint Cymru, a pham fod angen cynllun anadlol newydd neu Ddatganiad Ansawdd ar Gymru.

Bu'n siarad am waith yr elusen i roi gobaith, cymorth a llais i'r 1 o bob 5 o bobl sy'n byw gyda chyflyrau'r ysgyfaint.

Esboniodd beth yw prif gyflyrau'r ysgyfaint a pha mor gyffredin ydynt:

- Asthma: Yng Nghymru, mae tua 314,000 o bobl yn cael triniaeth ar hyn o bryd; gan gynnwys 59,000 o blant.
- Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD): Mae 74,000 o bobl wedi cael diagnosis o COPD yng Nghymru.
- Ffeibrosis Idiopathig yr Ysgyfaint (IPF): Mae tua 2,000 o bobl yn byw gyda Ffeibrosis Idiopathig yr Ysgyfaint yng Nghymru.
- Bronciectasis: Amcangyfrifir bod gan tua 1 o bob 1,000 o oedolion yng Nghymru'r cyflwr.
- Apnoea Cwsg Ataliol (OSA): Amcangyfrifir bod o leiaf 13% o ddynion sy'n oedolion a 6% o fenywod sy'n oedolion yn byw gydag Apnoea Cwsg Ataliol.
- COVID hir: Nid oes nifer pendant o bobl sy'n byw gyda'r cyflwr. Mae amcangyfrifon yn awgrymu bod tua 10%. O ystyried bod dros 323,000 o bobl wedi cael diagnosis o COVID-19, gallai hynny olygu bod dros 32,000 o bobl yn byw gyda COVID hir.

Bu'n siarad am y cynnydd a wnaed cyn COVID i wella diagnosis o gyflwr yr ysgyfaint a mynediad at rai gwasanaethau, ond roedd heriau'n dal i fodoli a rhannodd

ganlyniadau gofal asthma sylfaenol o’r Arolygon Asthma Blynyddol, lle mae’n gyson gan Gymru’r lefelau isaf o ofal sylfaenol.

Esboniodd fod y Cynllun Cyflawni ar gyfer Iechyd Anadlol wedi dod i ben yn swyddogol yn 2020 a'i fod wedi'i ymestyn am flwyddyn arall, ond nid yw'n glir beth fydd yn ei ddisodli.
Gofynnodd i Aelodau o’r Senedd ffurfio Grŵp Trawsbleidiol newydd ar gyfer Cyflyrau'r Ysgyfaint i helpu i wthio am Gynllun Anadlol neu Ddatganiad Ansawdd newydd.

Gofynnodd i Aelodau o’r Senedd a oedd ganddyn nhw gwestiynau.

Cafwyd sylw gan **Jane Dodds AS** ar y ffaith mai Cymru sydd â'r gyfran uchaf o afiechydon anadlol, a gofynnodd pam mai dyma’r achos. Esboniodd Joseph Carter am y cyfraddau ysmygu uchel a'r etifeddiaeth ddiwydiannol. Soniodd am amrywiadau rhanbarthol yng Nghymru a’r cysylltiadau â thlodi a llygredd aer.

Fe ofynnodd hi am enghreifftiau o arferion gorau o wledydd eraill. Siaradodd **Joseph Carter** am y lefelau is o feddygon yng Nghymru o gymharu â gwledydd eraill. Gallem fod yn cefnogi llawer mwy o bobl yn lleol fel rhan o ofal sylfaenol pe bai mwy o feddygon. Soniodd am yr enghreifftiau o wledydd eraill yn sgrinio eu poblogaethau am gyflyrau’r ysgyfaint, ac yn gwneud gwell defnydd o sbirometreg. At hynny, fe dynnodd sylw at y potensial i wella gwasanaethau trwy arloesi digidol, yn enwedig apiau.

Siaradodd **Rhys Jefferies** am yr heriau o ran darparu mewn sbirometreg fel rhan o ofal sylfaenol. Dywedodd fod 25% o'r bobl sydd wedi'u rhestru fel rhai sydd â COPD, a 30% o'r bobl sydd wedi’u rhestru fel rhai ag asthma, yn cael diagnosis anghywir. Mae'n rhaid i ni gael hyn yn iawn.

At hynny, siaradodd am y gymhariaeth â COVID-19, lle roedd y GIG yn gallu symud yn gyflym iawn a chofleidio technolegau newydd, gyda rhai ohonynt wedi'u datblygu'n wreiddiol at ddibenion cyflyrau eraill yr ysgyfaint, yn y lle cyntaf. Yr her yw newid ffyrdd o weithio ar gyfer trin cyflyrau cronig yr ysgyfaint hefyd.

Siaradodd **Dr Altaf Hussain AS** am dreftadaeth ddiwydiannol Cymru, yr heriau o ran ysmygu a pheryglon cyflyrau ysgyfaint sy'n gysylltiedig ag asbestos, er enghraifft mesothelioma.

Eglurodd **Joseph Carter** fod mesothelioma yn flaenoriaeth i Asthma UK a Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint, ond yn hanesyddol bod y Grŵp Trawsbleidiol ar Asbestos wedi edrych ar hyn, felly nid oedd wedi rhagweld y byddai'r grŵp hwn yn edrych arno.

2. **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – Ethol Cadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol.**

Dywedodd **Joseph Carter** y cafwyd un enwebiad ar gyfer Cadeirydd, gan **John Griffiths AS**. Eiliwyd yr enwebiad gan **Dr Altaf Hussain MS** ac fe gafodd ei ethol.

Fe wnaeth **John Griffiths AS** gymryd yr awenau fel Cadeirydd y cyfarfod a gofyn i Aelodau o'r Senedd gefnogi enwebiad Joseph Carter ac Asthma UK a Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint Cymru i ddarparu'r ysgrifenyddiaeth. Cytunodd y grŵp ar hyn.

3. **Cofrestru Aelodau: Cadarnhau Aelodau o'r Senedd sydd am gofrestru**

Cadarnhaodd **John Griffiths AS** fod yr Aelodau canlynol o'r Senedd wedi cytuno i gael eu rhestru fel aelodau o'r grŵp:

- John Griffiths AS
- Rhys ab Owen AS
- Rhun ap Iorwerth AS
- Vikki Howells AS
- Buffy Williams AS
- Rhianon Passmore AS
- Mark Isherwood AS
- Heledd Fychan AS

Gofynnodd i **Jane Dodd AS, Mike Hedges AS** ac **Altaf Hussain AS** os oedden nhw eisiau cofrestru ac fe gafwyd eu caniatâd.

4. **Cyflwyniad gan Rhys Jefferies. Rhoi Iechyd Anadlol ar waith Grŵp**

Cafwyd cyflwyniad gan **Rhys Jefferies** ar y 5 o wersi a gafodd yn sgil datblygu'r cynllun cyflawni anadlol a rhoi'r cynllun ar waith.

Dyma'r 5 o wersi:

- Roedd y cynllun cyntaf (2014) yn dderbyniol, yr ail un (2018) yn dda ac fe fyddai'r nesaf yn drawsnewidiol.
- Mae angen i gynllun cyflawni gael effaith. Canolbwyntio ar bethau o bwys.
- Mae'r broses o roi cynllun cenedlaethol ar waith yn gymhleth ac yn cymryd amser – mae angen mwy o amser arnom i droi'r yr hyn sy'n cymhleth yn bethau syml.
- Adnabod y gynulleidfa darged yw'r cam cyntaf, hawlio eu sylw yw'r nesaf a'u grymuso yw'r nod yn y pen draw.

- Rydym wedi safoni arfer, lleihau amrywiadau a darparu ysgogiad ar gyfer newid.

Mae angen i'r canlynol fod yn wir am y cynllun newydd:

- Yn drawsnewidiol
- Yn effeithiol
- Yn troi'r hyn sy'n gymhleth yn bethau syml
- Yn grymuso
- Yn ysgogiad ar gyfer newid

Gofynnodd **Jane Dodds** os oedd un peth y gallem ganolbwyntio arno yn drawsbleidiol, beth fyddai hwnnw? Dywedodd Rhys Jefferies bod angen i ni dreiddio i'r boblogaeth, drwy rymuso ac addysgu meddygon teulu a nyrsys practis.

Gofynnodd **John Griffiths** gofyn a oeddem yn gwthio ar 'ddrws agored' gyda Llywodraeth Cymru. Gofynnodd a oedd y pandemig a COVID hir yn golygu bod hwn yn amser da i ganolbwyntio ar iechyd yr ysgyfaint.

Ni allai **Rhys Jefferies** siarad ar ran Llywodraeth Cymru, ond roedd o'r farn bod y cynllun cyflawni ar gyfer iechyd anadlol wedi creu systemau a phrosesau a oedd bellach yn barod i gael eu hehangu i fwy o feysydd a thrwy dechnoleg, gallem drawsnewid gofal anadlol. Teimlai fod angen i fyrddau iechyd lleol ganolbwyntio mwy ar iechyd yr ysgyfaint. Mae COVID a COVID hir wedi dangos bod y systemau a'r technolegau hyn yn gweithio.

5. **Diben a chynllunio ar gyfer y dyfodol – Nodau a diben y Grŵp Trawsbleidiol, cynigion ar gyfer agendâu cyfarfodydd yn y dyfodol (siaradwyr ac ati) a dyddiad y cyfarfod nesaf?**

Cynigiodd **Joseph Carter** y diben a ganlyn a chytunodd y grŵp arno:

> Helpu i wella gofal anadlol yng Nghymru a hyrwyddo dull mwy strategol o fynd i'r afael â gwelliannau yn yr hirdymor. Cynyddu ymwybyddiaeth wleidyddol ynghylch hyd a lled salwch anadlol, y gost o ran iechyd a gofal cymdeithasol, ei gysylltiadau ag anghydraddoldebau iechyd yn fwy eang, cyfleoedd i atal, a'r cysylltiadau trawsbynciol â rhannau eraill o'r agenda iechyd cyhoeddus.

Gofynnodd **John Griffiths AS** i gyd-Aelodau o'r Senedd feddwl am bynciau yr hoffent eu trafod.

Gofynnodd **Jane Dodds AS** a oedd un peth y gallem dynnu sylw ato ar hyn o bryd yn y Senedd, drwy ddadl neu gynnig.

Awgrymodd **John Griffiths AS** y gallem ysgrifennu at y Gweinidog a chael gwybod beth y mae'n ei wneud.

Cytunodd **Joseph Carter** i gysylltu ag Eluned Morgan AS. Cynigiodd y gallai'r cyfarfod nesaf ganolbwyntio ar COPD gan gyd-fynd â chyhoeddi arolwg COPD AUKBLF Cymru ar Ddiwrnod COPD y Byd. Byddai hyn yn gysylltiedig â datganiad barn a gellid ei ddefnyddio ar gyfer cynnig yn ogystal.

**Camau i'w cymryd: Joseph Carter i gwblhau'r gwaith papur er mwyn cofrestru'r Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd yr Ysgyfaint**
**Camau i'w cymryd: John Griffiths AS i lofnodi'r ffurflen a'i chyflwyno i Gomisiwn y Senedd**
**Camau i'w cymryd: John Griffiths AS a Joseph Carter i gytuno ar ddyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol**
**Camau i'w cymryd: Joseph Carter i ysgrifennu at Eluned Morgan AS**

## 6. Unrhyw fater arall

Gofynnodd **John Griffiths AS** a oedd gan unrhyw un unrhyw fater arall. Nid oedd unrhyw fater arall felly diolchodd wedyn, i bawb am fod yn bresennol a daeth â'r cyfarfod i ben.